

ECAD4008C-

- *Mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol.*
- *Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.*
- *Mae addysgu a dysgu da yn ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad.*

(Donalson, 20 15:68)

Gan ddefnyddio'r 3 egwyddor bedagogaidd a'u nodir uchod. Trafodwch y rhain mewn perthynas a'ch profiad yn yr ysgol gan ddangos dealltwriaeth sicr, nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Cyflwyniad

Yn ystod y modwl roedd trosolwg o'r wybodaeth bynciol a'r egwyddorion addysgeg sonnir yn y ddogfen Ddyfodol Lwyddiannus e.e. meddylfryd, dyfnhau meddwl, asesu ar gyfer dysgu, perthnasau cadarnhaol ac ymreolaeth dysgu. Roedd archwilio a datblygu gwybodaeth am y pwnc a dealltwriaeth o'r egwyddorion addysgeg a'r modd mae'r rhain yn gysylltiedig i gynllunio, cyflwyno ac asesu cyfleoedd dysgu. Hefyd amlinellir rolau a chyfrifoldebau athro proffesiynol a'r angen i fod yn rhan o gymuned broffesiynol. Amcan arall y modwl yw ystyried rôl yr athrawes broffesiynol yng ngoleuni arfer trawsffurfiol trwy gwrdd, profi a rhannu egwyddorion addysgeg. Datblygir y gallu i archwilio ac ennill dealltwriaeth gychwynnol o natur gymhleth yr amgylchedd dysgu a dechrau cwestiynu dewisiadau addysgeg.

Y Cyfnod Sylfaen

Y Cyfnod Sylfaen yw cwricwlwm sy'n unigrwy i Gymru ar gyfer pob plentyn tair i saith oed. Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen oherwydd yn lle dysgu o lyfrau ymarfer ac eistedd wrth ddesgiau creda'r lywodraeth bydden fwy buddiol i blant dysgu trwy chwarae, archwilio a gweithgareddau ymarferol (Burns, 2008). Mae'r Cyfnod Sylfaen yn hybu cyfle cyfartal, sgiliau archwilio ac annibyniaeth, yn cwmpasu anghenion datblygu plant a'u sgiliau ar draws y cwricwlwm, gan adeiladu ar eu profiadau dysgu a gwybodaeth blaenorol (Llywodraeth Cymru, 2015). Pwysleisir ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd ar gyfer dysgu

plant i annog archwilio, chwarae anturus a chreadigrwydd. Mae saith Maes Dysgu (chwech ar gyfer ysgolion Cymraeg) i gydweithio â'i gilydd i ddarparu dull trawsgwricwlaidd (Llywodraeth Cymru, 2015). Rh oddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau plant ar draws y Meysydd Dysgu er mwyn sicrhau bod plant ifanc yn dysgu mewn modd addas ac integredig (Llywodraeth Cymru, 2015). Y saith Maes Dysgu yw:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (wedi'i ddiwygio i gynnwys cydran llythrennedd y FfLIRh)
- Datblygiad Mathemategol (wedi'i ddiwygio i gynnwys cydran rhifedd y FfLIRh)
- Datblygu'r Gymraeg
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol.

Addysgeg y Cyfnod Sylfaen


Defnyddir y term 'addysgeg' i gyfeirio at y berthynas gymhleth rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r dysgu, gwerthuso arfer a'i gwella o ganlyniad i waith ymchwil (dyfynnwyd yn ddarlith C.Jennings a N.Ryder, 2020). Yn y Cyfnod Sylfaen y brif addysgeg yw adeiladu ar ddysgu blaenorol, ystyried a chynnwys diddordebau plant a phwysigrwydd rôl chwarae wrth ddysgu (dyfynnwyd yn ddarlith C.Jennings a N.Ryder, 2020).

Pwysleisir y syniad o adeiladu ar ddysgu blaenorol gan Piaget. Pwysleisiodd Piaget bwysigrwydd sgemâu mewn datblygiad gwybyddol a disgrifiodd sut defnyddir gan blant i ddeall yr hyn sydd o'u cwmpas. Gellir diffinio sgema fel set o gynrychioliadau meddyliol yn gysylltiedig i'r byd yr ydym yn eu defnyddio i ddeall ac i ymateb i sefyllfaoedd (McLeod, 2018). Mae Tina Bruce a'u theori '12 nodwedd chwarae' yn atgyfnerthu pwysigrwydd chwarae wrth ddysgu; "mae plant yn ceisio'r sgiliau dysgon nhw'n ddiweddar trwy chwarae, fel petai'n dathlu beth maen nhw'n gwybod"(2011). Felly mae chwarae yn hanfodol i ddysgu a datblygu'r hyn gwnaethon nhw ddysgu'n flaenorol, sy'n gysylltiedig i'r ail egwyddor, 'adeiladu ar wybodaeth flaenorol'. Cyflwynodd yr Athro Laevers(A Process-Oriented Child

Monitoring System, 1993) y term 'involvement' i bwysleisio bydd plant yn canolbwyntio pan fyddan nhw wedi ymgolli mewn gweithgaredd neu dasg sydd o ddiddordeb iddyn nhw (Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008). Dyma gryfder i'r ail egwyddor, defnyddio diddordebau plant i gynnal brwdfrydedd. Ond er ei bod yn bwysig mae'n her i'r addysgwr plesio pawb.

Diagram- Nodweddion ymarfer dosbarth effeithiol. (Ko, 2013)

Fel dangoswyd yn y diagram i'r chwith mae'r holl nodweddion yma'n gyfrifol am greu



dosbarth effeithiol; cynllunio a threfnu, perthnasau, anghenion y disgyblion, addysgu a dysgu, adnoddau ac amgylcheddau. Yn ôl adroddiad am addysg yng Nghymru mae Cymru yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol, yn cynllunio gwaith ar lefelau amrywiol i fod yn addas ar gyfer plant gydag anghenion amrywiol, yn ffurfio perthnasau cryf rhwng staff yr ysgol a phlant (OECD, 2014). Felly yn amlwg mae Cymru ar y trywydd cywir yn

ôl y diagram ac adroddiad. Mae'r rhain yn gysylltiedig i'r egwyddor gyntaf ac ail oherwydd yng Nghymru ni'n defnyddio cymysgedd o ddulliau a gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n addas.

Mae'r dull trawsgwricwlaidd yn hollol bwysig yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r dull yma yn sicrhau bod plant yn cyffwrdd a phob pwnc. Mae hwn yn gysylltiedig ag yn gryfder i'r egwyddor, 'mae addysgu a dysgu da yn ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad'. Mae'r fframwaith yn annog i gyd-blethu pynciau er enghraifft; daearyddiaeth a chelf, neu hanes ac addysg gorfforol i sicrhau bod disgyblion yn cael lluo o gyfleoedd a phrofiadau i ddefnyddio eu sgiliau rhifedd, llythrennedd a TGCh (Estyn, 2016). Mae nifer o fuddion i ddysgu trawsgwricwlaidd. Mae'n caniatáu gwersi mwy rhyng-gysylltiedig sy'n dal dychymyg y plant, hefyd yn galluogi i sylwi ar batrymau rhwng pynciau a fydd yn helpu adnabod gwybodaeth allweddol (Twinkl, 2019). I gynllunio i ddysgu gwersi trawsgwricwlaidd yn llwyddiannus mae sicrhau bod y cysylltiadau rhwng gwersi yn naturiol ac nad ydynt yn cael eu gorfodi (Twinkl, 2019). Yn nôl erthygl gan Matthew Lynch mae rhai anfanteision i ddull trawsgwricwlaidd. Sonnir bod diffyg amser gan athrawon i gynllunio ar gyfer gwahanol bynciau a meddwl sut i gysylltu nhw (Lynch, 2019). Credir bydd angen ailhyfforddi athrawon sut i gynllunio'n effeithiol trwy ychwanegu dull trawsgwricwlaidd. Pryder arall yw sut i asesu nifer o bynciau ac agweddau i waith, bydd adeiladu fformat asesu ar gyfer pob

gweithgaredd sydd eto'n cymryd llawer o amser (Lynch, 2019). Y ddadl olaf yw bod potensial i'r dull dechrau'n arbennig ond pylu dros amser oherwydd ei bod yn anodd cyd-blethu'r pynciau ac mae cynnal diddordeb plant yn anodd (Lynch, 2019), felly dyma wendid i'r drydedd egwyddor.

Yn fy nosbarth profiad dysgu roedd 29 o blant mewn dosbarth cymysg o flwyddyn 1 a 2. Lleolwyd yr ysgol yn ardal drefol gyda thua 590 o blant. Nad oedd unrhyw anghenion ychwanegol yn fy nosbarth, ond roedd ambell i blentyn ar gofnod o bryder. Felly, maes i mi ddatblygu bydd dod yn gyfarwydd a chreu gweithgareddau addas ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad i'r ffaith bod y dosbarth yn un mawr roedd rhaid i mi amrywio technegau addysgu a strategaethau rheoli i gynnal diddordeb a sylw'r plant. Enghraifft o reoli dosbarth mawr yw newid y dechneg 'class, class, class...Miss, Miss, Miss', i fod yn addas i mi, roedd yr elfen gystadleuol i'r strategaeth yma yn cynnal brwdfrydedd y plant ac yn annog nhw i wrando. Hefyd defnyddiais y siart ymddygiad yn ddyddiol; symud lan am ateb cwestiwn anodd, gwrandu'n astud neu waith gwyh, ond symud lawr am ymddygiad annerbyniol, diffyg ymdrech a diffyg gwrandawriad. Felly dyma enghraifft o'r egwyddor gyntaf; 'defnyddio cymysgedd o ddulliau'. Yn nôl ymchwil, mae dosbarthiadau cymysg yn fuddiol oherwydd mae'r plant hyn yn cymell y plant ifancach (Reese, 1998) a sylweddolais hyn ar brofiad dysgu. Ond er hyn fel arfer mae rhieni'r plant hyn yn becsu bydd eu plant yn cael ei dal nôl mewn dosbarth cymysg (Song, Spradlin a Plucker, 2009) a sylweddolais ar brofiad dysgu roedd ambell i blentyn blwyddyn dau yn ddiog yn eu gwaith. Wrth ddysgu dosbarth cymysg mae angen sicrhau bod y tasgau wedi gwahaniaethu'n gywir. Er gwnes i wahaniaethu pob tasg (gallu uwch, canolig ac is) weithiau dosbarthais y gwaith yn nôl deilliant dysgu a lefel gallu'r grŵp cyfan yn lle ystyried yr unigolyn a ffactorau megis eu deilliant dysgu personol, efallai gwithio a herio rhai disgyblion a pha flwyddyn maen nhw.

Cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen

Ar brofiad dysgu defnyddiais amrywiaeth o ddulliau addysgu megis defnyddio adnoddau gwahanol, defnyddio amgylcheddau amrywiol ac amrywio tactegau dysgu.



Tasg cynorthwydd ymarferol.



Yn fy nosbarth i roedd tasg athrawes, tasg annibynnol a thasg cynorthwyydd, yn ogystal â heriau a llais y disgybl. Dros yr wythnos arsylwi sylweddolais ar ddiddordebau'r plant, felly roedd hyn yn help i mi wrth gynllunio. Nid oedden nhw'n hoff iawn o lawer o amser ar y carped na thasgau ysgrifenedig, ond mwynheuon nhw dasgau ymarferol, creadigol a thu allan. Felly dyma elfen o wrando i lais y plentyn sy'n bwyslais enfawr yn y cwricwlwm newydd (Donaldson, 2015). Er hyn weithiau roedd angen trafod ar y carped am gyfnod byr oherwydd roedd angen sicrhau roedd pawb yn deall yr hyn roedd angen gwneud. Felly dyma enghraifft o addysgu uniongyrchol sy'n gysylltiedig i'r egwyddor gyntaf. Gwnes i sicrhau bod pob agoriad i wers yn adeiladu ar wybodaeth y wers cyn ac roedd pawb yn cyfrannu'r i'r drafodaeth i atgoffa o'r wybodaeth hanfod. Hefyd erbyn diwedd y wers gwnes i sicrhau roedd pawb wedi dysgu rhywbeth newydd. Cysyllta hwn i'r ail egwyddor hefyd; gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth.

Yn ogystal â hyn cyn cynlluniais

weithgareddau llais y disgybl eisteddais i

lawr gyda'r plant mewn cylch a gofynnais pa fathau o dasgau bydden nhw'n hoff o weld.

Cysylltir hyn i hawl iau plant, erthygl 12 "eich hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch." (CCUHP, 2015). Teipiais y syniadau ar y gliniadur (Ilun i'r dde) ac yna argraffais i roi ar wal y dosbarth i bawb weld bod ei barn yn bwysig. Eto, roedd hyn yn gymorth i mi wrth fynd ati i gynllunio a dod i nabod yr hyn oedd yn diddori'r plant. Dywed



Arddangosfa llais y disgybl o ysgol pontio.

Meilyr Rowlands (prif arolygydd Estyn); "Rwy'n annog pob ysgol i...wella'r effaith a ddaw yn sgil sicrhau bod lleisiau disgyblion yn cael eu clywed." (2016). Mae cynllunio i gyfateb i ddiddordebau'r plant yn fuddiol oherwydd maen nhw'n ffocysu a thalu mwy o sylw sy'n gwella ei dealltwriaeth a dysgu (Callanan, Anderson, Haywood a Hudson, 2017). Mae hwn yn gysylltiedig i'r ail egwyddor hefyd oherwydd mae ennyn diddordeb yn hollol bwysig. Yn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus sonnir am y pedwar pwrpas a sut mae "cyfranogiad pwrpasol ac ystyrlon gan ddisgyblion yn nodwedd bwysig iawn i'r cwricwlwm". Mae nifer o fuddion i wrando ar farn y disgyblion megis creu ymdeimlad o


gymuned, annog plant i fynegi eu barn a chymryd rhan mewn trafodaethau (Morgan, N., 2019). Hefyd sylweddola ysgolion ymddygiad gwell o blant wrth wrando ar ei awgrymiadau (Morgan, N., 2019). Er hyn mae'n herio iawn i athrawon cynnwys barn pawb.



Enghraifft o ddiwedd glo gwers-defnyddio'r meic i ofyn ac ateb cwestiynua am y sesiwn fel dosbarth.

Mae'n bwysig iawn i gynllunio pob agwedd o wers i fod yn athrawes effeithiol, mae angen paratoi strwythur clir i bob sesiwn; agoriad, tasgau/chwarae a chlo. Pwrpas agoriad yw i naillai esbonio'r tasgau neu atgoffa'r plant o'r hyn maen nhw wedi gwneud yn barod. Mae angen dal sylw'r plant er mwyn cynnal eu diddordeb sy'n herio i wneud gyda phlant ifanc. Fel rheol, rydyn ni'n meddwl yn ofalus sut rydyn ni'n cychwyn gwersi; adeiladu gwybodaeth flaenorol, ennyn diddordeb dysgwyr, a gosod pwrpas ar gyfer y wers (Ganske, 2017). Wrth anfon y plant i gwblhau'r tasgau mae angen sicrhau maen


nhw'n hollol deall disgwyliadau'r sesiwn cyn gadael iddyn nhw gyflawni'r hyn sydd angen gwneud (Ganske, 2017). Ac rydym yn dewis tasgau neu weithgareddau yn ofalus i'w defnyddio yn ystod y wers. Yn olaf, mae angen cloi gwers trwy asesu os oedden nhw wedi deall a mwynhau bwriad y wers, mae modd wneud hyn trwy gemau neu gwestiynu fel gwnes i ar brofiad dysgu. Mae cau gwersi yn darparu lle i fyfyrwyr feddwl am eu dysgu (Ganske, 2017).



Darn o waith ar yr iPad o brofiad dysgu.

Bydd adegau pan fydd angen addysgu agwedd newydd yn uniongyrchol drwy weithgareddau o fewn grŵp bach. Felly mae hyn yn gysylltiedig i'r egwyddor gyntaf. Bydd hyn yn ategu'r rhaglen gytbwys o chwarae strwythuredig. Dylid rhannu deilliannau dysgu gyda'r plant mewn ffordd gallan nhw ddeall a dylid annog plant i drafod eu gwaith er mwyn cyflwyno elfen o hunanwerthusiad. Waeth beth fo'r canlyniadau dylid canmol ymdrechion a dyfalbarhad plant a'u hannog mewn gweithgareddau chwarae strwythuredig a gweithgareddau a ysgogir gan blant yn ogystal ac mewn gweithgareddau o dan gyfarwyddyd ymarferydd (Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008).

Hefyd wrth gynllunio yn y Cyfnod Sylfaen mae angen amrywio tasgau a gweithgareddau. Gwnes i hyn ar fy mhrofiad dysgu; defnyddiais y bwrdd rhyngweithiol, iPads, tasgau



Gweithgaredd ymarferol.

annibynnol, tasgau grŵp, gwaith ymarferol, gwaith creadigol a dysgu trwy chwarae. Mae hwn yn gysylltiedig i'r egwyddor, 'mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol'. Yn ogystal â hyn ar brofiad dysgu wnes i amrywio'r amgylcheddau oherwydd mae gan blant gwahanol ffyrdd o ryngweithio gyda'r amgylchedd. Eto mae hwn yn gysylltiedig i'r egwyddor gyntaf. Pwysleisiwyd Reggio Emilia y pwysigrwydd o greu amgylchedd

croesawgar i gefnogi datblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol plant, dyweda Malaguzzi (1998), "dylai'r amgylchedd gweithredu fel acwariwm, yn adlewyrchu syniadau, moesegau ac agweddau o'r rhai sy'n byw tu mewn" (dyfynnwyd gan Thornton, 2016). Dylid amgylchedd dysgu cael amrywiaeth o adnoddau sy'n addas ar gyfer datblygiad corfforol ac ieithyddol gan alluogi pob plentyn i wneud cynnydd. Dylai'r adnoddau fod o ansawdd uchel, mewn cyflwr arbennig a dylen nhw ddenu plant i gymryd rhan gan gynnig sialens a darparu camau datblygu gwahanol (Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008). Yn y Fframwaith atgyfnerthwyd pwysigrwydd y tu allan fel amgylchedd dysgu; "...rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd ar gyfer dysgu plant". Cytuna Jan White gyda'r gosodiad yma gan bwysleisiwyd pwysigrwydd y tu allan i gefnogi dysgu a lles plant. Yn nôl White mae chwe chydian i wneud y tu allan yn amgylchedd dysgu galluogi; defnyddio deunyddiau naturiol, cael profiadau gwahanol, defnyddio dŵr, chwarae corfforol, chwarae creadigol a chwarae adeiladwaith (2011). Ar brofiad dysgu defnyddiais y tu allan i wneud tasgau gyda'r cynorthwydd, gweithgareddau llais y disgybl fel cegin mwd a heriau dosbarth gan ddefnyddio'r twba tywod. Mae'r holl gydrannau yma'n darparu sgiliau echddygol bras a man, archwilio ac amlsynhwyraidd sy'n hanfodol i ddatblygiad (White, 2011).



Gweithgaredd- Twba tywod o brofiad dysgu.

Mae cysylltiadau da rhwng rhieni a'r ysgol yn hanfodol i ddatblygiad plentyn ac yn agwedd



Dathlu gwaith disgyblion.

hollol bwysig i'r cwricwlwm newydd. Sylweddolais barodrwydd fy ysgol leoliad i annog ymglymiad y rhieni trwy gynnal diwrnodau dathlu gwaith, nosweithiau rhieni a rhannu tasgau ar wefan yr ysgol. Yn ôl fy ysgol leoliad, mae'n hanfodol bod rhieni yn cael eu hysbysu ar gynnydd eu plentyn er mwyn gweithio ar bethau gartref. Dengys ymchwil bod dylanwad rhieni yn cael effaith drawiadol ar barodrwydd ysgol a chymwysterau o

enedigaeth lan i 16 mlwydd oed (EYC, 2016). Bwriad y cyfnod sylfaen yw creu cysylltiad rhwng amgylchedd dysgu'r ysgol a chartref trwy annog ymglymiad rhieni.

Y sefyllfa bresennol

Mae adeiladu ar ddysgu blaenorol a phrofiad cynt yn rhan enfawr o sefyllfa bresennol yn y Cyfnod Sylfaen. Pwysleisir yn y ddogfen 'Addysgeg Dysgu ac Addysgu' ei bod yn hollbwysig bod y cwricwlwm yn ymateb i anghenion a diddordebau plant trwy adeiladu ar brofiadau blaenorol. Mae plant yn dysgu o enedigaeth a bydd eu profiadau cynharaf yn effeithio ar eu dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Felly, yn y Cyfnod Sylfaen maen nhw'n adeiladu ar ben y ddealltwriaeth sylfaenol sydd ganddyn nhw wrth ddechrau'r ysgol i annog datblygiad a thyfiant (Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008).

Er bod ystyried pwysigrwydd llais y disgybl yn hollol bwysig weithiau mae'n her i athrawon cynnwys syniadau bawb. Yn ogystal â hyn mae angen bod yn realistig o beth gall clymu mewn i thema benodol a beth sy'n addas i wneud o fewn sesiwn. Gwelais yr anhawster yma wrth drafod fel dosbarth am weithgareddau llais y disgybl, roedd angen ystyried yr hyn roedd modd cyflawni mewn sesiwn 50 munud a beth oedd modd cyflawni o fewn amser byr ar brofiad dysgu.

Mae'r adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yn dangos bod y Cyfnod Sylfaen yn un o gryfderau yn y cwricwlwm presennol yng Nghymru ac felly weddill o addysg dysgu a datblygu o'u haddysgeg dysgu ac addysgu. Er hynny, mae'n glir iawn bod angen addasu er mwyn datblygu cwricwlwm mwy cyfoes. Awgrymir hefyd bod angen ystyried nifer o faterion allweddol wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd mewn perthynas â nodau a strwythur,

addysgeg ac asesu. Yn edrych ymlaen gyda'r cwricwlwm newydd i Gymru bydd disgwyl i staff y Cyfnod Sylfaen darparu cymorth i staff CA2 i helpu nhw addasu i ddulliau trawsgwricwlaidd, defnyddio'r tu allan ac ychwanegu amrywiaeth o ddulliau; TGCh, chwarae, ymarferol. Yn edrych ymlaen sonnir yn yr adroddiad bydd mwy o ryw i athrawon i wneud penderfyniadau o fewn canllawiau'r cwricwlwm, bydd trefniadau asesu'n newid i gefnogi dysgu'r plant, bydd mwy o ffocws ar sgiliau bywyd ac iechyd a lles (Donaldson, 2015). Mae'r adroddiad yn awgrymu dulliau asesu symlach yn ogystal â rôl gryfach i asesiadau gefnogi dysgu. Hefyd bydd mwy o bwyslais ar sgiliau a phynciau ehangach megis creadigrwydd, meddwl yn feirniadol, datrys problem, chwarae, cynllunio a threfnu (Donaldson, 2015).

Casgliad

Mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol.

Mae defnyddio cymysgedd o ddulliau yn ffordd dda o gynnal brwdfrydedd a diddordeb disgyblion. Hefyd mae'n bwysig i amrywio dulliau i ehangu a datblygu sgiliau e.e. llythrennedd, TGCh a rhifedd. Yn y Cyfnod Sylfaen mae darparu profiadau amrywiol yn hanfodol, felly mae'n dda i ddefnyddio TGCh, y tu allan a chwarae. Mae modd amrywio sut i gyflwyno tasgau e.e defnyddio'r ipad, gwaith grŵp, tasg creadigol, tasg wedi arwain gan oedolyn, amser rhydd neu chwarae strwythuredig.

Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.

Mae ennyn diddordeb ac adeiladu ar brofiad blaenorol yn agweddau hollol bwysig o fewn y Cyfnod Sylfaen. Mae llais y disgybl a chynllunio yn nôl diddordebau'r disgyblion yn ffactor dda i gynnal brwdfrydedd y plant a theimlo fel eu barn yn bwysig i'r athrawes. Mae'r brofiadau o fewn ysgol yn adeiladu ar brofiadau cynharaf a ddealltwriaeth sylfaenol y disgyblion i annog datblygiad.

Mae addysgu a dysgu da yn ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae dulliau trawsgwricwlaidd yn fuddiol oherwydd mae'n cysylltu gwahanol bynciau at ei gilydd felly mae plant yn gallu creu cysylltiadau rhwng meysydd dysgu gwahanol, sicrhau bod y plant yn cael profiadau i ddefnyddio eu sgiliau rhifedd, llythrennedd a TGCh o fewn pynciau arall. Ond, bydden anodd i'r athrawon cynllunio gwahanol dasgau o ganlyniad i ddiffyg amser a gweld sut i asesu nifer o bynciau ar y cyd.

Cyfeirnod

Bruce, T. (2011). *Learning through Play : For Babies Toddlers and Young Children*. 2il. Llundain: Hodder Education, tud.29-31.

Burns, A., (2008). *Report On The Foundation Phase*. [pdf] National Assembly for Wales, tud.1-2. Ar gael ar: <[https://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7176%20-%20FINANCE%20COMMITTEE%20REPORT%20\(FIN\(3\)-08-R08\)%20-%20Report%20on%20the%20Foundation%20Phase-18072008-93767/cr-ld7176-e-English.pdf](https://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7176%20-%20FINANCE%20COMMITTEE%20REPORT%20(FIN(3)-08-R08)%20-%20Report%20on%20the%20Foundation%20Phase-18072008-93767/cr-ld7176-e-English.pdf)> [Cyrchwyd 24 Mawrth 2020].

Callanan, M., Anderson, M., Haywood, S. and Hudson, R., (2017). *Study Of Early Education And Development: Good Practice In Early Education*. [pdf] Department of Education, tud.25. Ar gael ar: <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/586242/SEED__Good_Practice_in_Early_Education_-_RR553.pdf> [Cyrchwyd 25 Mawrth 2020].

CCUHP, (2015). *CCUHP - Hawliau Plant - Children'S Commissioner For Wales*. [ar-lein] Children's Commissioner for Wales. Ar gael ar: <<https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp-hawliau-planthttpswww-youtube-comwatchvvs1usdrn-voindex4listplgsiznczbjkhq3lfdktmsbnihtbzu5yrc/>> [Cyrchwyd 25 Mawrth 2020].

Donaldson, G., (2015). *Crynodeb O Adroddiad Yr Athro Graham Donaldson*. [pdf] Llywodraeth Cymru, tud.1-9. Ar gael ar: <<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf>> [Cyrchwyd 27 Mawrth 2020].

Donaldson, G., (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. [pdf] tud.15-30. Ar gael ar:
<<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>>
[Cyrchwyd 25 Mawrth 2020].

Estyn, (2016). *'Llais Y Disgybl' O Fudd I Ddisgyblion Ac Yn Helpu Ysgolion I Wella* / Estyn. [ar-lein] Estyn.llyw.cymru. Ar gael ar: <https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/'llais-y-disgybl'-o-fudd-i-ddisgyblion-ac-yn-helpu-ysgolion-i-wella?_ga=2.26254388.881069960.1585136750-988379260.1584877435> [Cyrchwyd 25 Mawrth 2020].

Estyn, 2016. *Themâu Trawsgwricwlaidd Sy'n Datblygu Medrau Allweddol Disgyblion* / Estyn. [ar-lein] Estyn.llyw.cymru. Ar gael ar: <<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/themau-trawsgwricwlaidd-sy'n-datblygu-medrau-allweddol-disgyblion>> [Cyrchwyd 26 Mawrth 2020].

EYC (2016). *The importance of home learning*. [ar-lein] Earlyyearscares.com. Ar gael ar: <https://www.earlyyearscares.com/eyc/learning-and-development/influence-home-learning-development/> [Cyrchwyd 26 Mawrth. 2020].

Ganske, K., (2017). *Lesson Closure: An Important Piece Of The Student Learning Puzzle*. [pdf] tud.95-99. Ar gael ar: <<https://ila.onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1002/trtr.1587>> [Cyrchwyd 26 Mawrth 2020].

Ko, J. Sammons P. (2013) *Effective Teaching: A Review of Research and Evidence*. tud.35. Reading: CfBT Education Trust.

LIC, (2008). Darlith C.Jennings a N.Ryder (2020). PCYDDS.

Llywodraeth Cymru, (2015). *Fframwaith Y Cyfnod Sylfan*. Caerdydd, tud.1-5.

Ffion Hann-Jones (1708539)

Lynch, M., (2019). *Pros And Cons Of Cross-Curricular Teaching - The Advocate*. [ar-lein] The Advocate. Ar gael ar: <<https://www.theedadvocate.org/pros-and-cons-of-cross-curricular-teaching/>> [Cyrchwyd 25 Mawrth 2020].

McLeod, S., (2018). *Piaget's Theory Of Cognitive Development*. [ar-lein] Simplypsychology.org. Ar gael ar: <<https://www.simplypsychology.org/piaget.html#schema>> [Cyrchwyd 25 Mawrth 2020].

Morgan, N., (2019). *Having A Voice, Having A Choice - Pupil Participation In Primary Schools! - NSM Training & Consultancy*. [ar-lein] NSM Training & Consultancy. Ar gael ar: <<https://www.nsmc.co.uk/news/pupil-voice-in-primary-schools/>> [Cyrchwyd 25 Mawrth 2020].

OECD, (2014) *Improving Schools in Wales: an OECD Perspective*. Paris, [pdf] OECD. tud.8-9. Ar gael ar: <http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf> [Cyrchwyd 25 Mawrth 2020].

Reese, D., (1998). *Mixed-Age Grouping: What Does The Research Say, And How Can Parents Use This Information? | Kidsource Online, Inc.* [ar-lein] Kidsource.com. Ar gael ar: <<http://www.kidsource.com/mixed-age-grouping-what-does-research-say-and-how-can-parents-use-information#sthash.0jaKRSNi.dpbs>> [Cyrchwyd 26 Mawrth 2020].

Song, R., Spradlin, T. and Plucker, J., (2009). *The Advantages And Disadvantages Of Multiage Classrooms In The Era Of NCLB Accountability*. [pdf] tud.2-3. Ar gael ar: <<https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED504569.pdf>> [Cyrchwyd 26 Mawrth 2020].

Thornton, L. (2016). *The environment as the third teacher – Early Years Teacher Status Blog*. [ar-lein] Eys.wp.derby.ac.uk. Ar gael ar: <https://eys.wp.derby.ac.uk/2016/12/06/the-environment-as-the-third-teacher/> [Cyrchwyd 25 Mawrth. 2020].

Twinkl, (2019). *What Is Cross-Curricular? - Twinkl Teaching Wiki*. [ar-lein] Twinkl. Ar gael ar: <<https://www.twinkl.co.uk/teaching-wiki/cross-curricular>> [Cyrchwyd 26 Mawrth 2020].

Ffion Hann-Jones (1708539)

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, (2008). *Addysgeg Dysgu Ac Addysgu*.
[pdf] Llywodraeth Cymru, tud.6-10. Ar gael ar: <<https://hwb.gov.wales/storage/0a6c9f32-6378-4192-889e-d0b6cd84b745/addysgeg-dysgu-ac-addysgu.pdf>> [Cyrchwyd 25 Mawrth 2020].